


# Taliadau Uniongyrchol a Model Menter Gydweithredol Pobl Anabl

## Pecyn Cymorth







**Citizen Directed Co-operatives Cymru**
Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion

Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

Disability Wales
Anabledd Cymru

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagymadrodd** | 3 |
| **2.** | **Byw'n Annibynnol** | 4 |
| **3.** | **Taliadau Uniongyrchol** | 5 |
| | 3.1 Cyflwyniad i daliadau uniongyrchol | 5 |
| | 3.2 Cymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol | 5 |
| | 3.3 Defnydd taliadau uniongyrchol ar waith | 6 |
| | 3.3.1 Cyflogi cynorthwywyr personol (CP) | 6 |
| | 3.3.2 Prynu offer | 6 |
| | 3.3.3 Cyfuno adnoddau | 7 |
| | 3.4 Beth sy'n bwysig i chi? | 7 |
| | 3.5 Modelau presennol i gefnogi rheolaeth taliadau uniongyrchol | 9 |
| **4.** | **Cydweithredu i Rheoli Taliadau Uniongyrchol** | 11 |
| **5.** | **Mentrau Cydweithredol Dan Arweiniad Ddefnyddwyr i Reoli Taliadau Uniongyrchol** | 12 |
| | 5.1 Yr hanes | 12 |
| | 5.2 Penderfynu beth sy'n gweithio i chi | 12 |
| | 5.2.1 Pwy fydd yn ymuno â chi a beth ydych chi eisiau ei wneud? | 13 |
| | 5.2.2 A yw'n fusnes? | 14 |
| **6.** | **Menter Gydweithredol Pobl Anabl** | 15 |
| | 6.1 Yn ôl i'r man cychwyn | 15 |
| | 6.2 Dechrau menter gydweithredol pobl anabl | 16 |
| Rhestr geiriau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn | | 17 |
| Atodiad A – Ffynonellau gwybodaeth Awdurdodau Lleol ynglŷn â Thaliadau Uniongyrchol | | 18 |

# 1. Rhagymadrodd

**Mae'r pecyn cymorth hwn yn archwilio sut y gall taliadau uniongyrchol gyfrannu at fyw'n annibynnol ar gyfer pobl anabl. Mae'n ystyried gwahanol fodelau o reoli taliadau uniongyrchol ac yn rhoi ffocws i fodel sy'n dod i'r amlwg, sef menter gydweithredol dan arweiniad dinasyddion neu ddefnyddwyr.**

**Efallai y byddwch yn teimlo bod y pecyn hwn yn ddefnyddiol os yw unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi:**

- Rydych yn berson anabl sydd eisiau byw bywyd annibynnol
- Rydych eisiau helpu pobl anabl eraill i fyw'n annibynnol
- Rydych eisiau dysgu mwy am daliadau uniongyrchol
- Rydych yn ystyried taliadau uniongyrchol er mwyn eich galluogi chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdanynt i fyw'n annibynnol
- Nid ydych yn fodlon gyda'r gefnogaeth bresennol yn eich ardal i'ch cynorthwyo i reoli eich taliadau uniongyrchol
- Rydych eisiau sefydlu menter gydweithredol er budd pobl anabl
- Rydych awydd her!

Mae'r pecyn cymorth wedi'i gynllunio fel y gallwch bori mewn gwahanol bynciau sydd o ddiddordeb i chi. Mae llawer o ddolenni i rannau eraill o'r pecyn cymorth neu adnoddau defnyddiol eraill. Cadwch lygad am yr eicon ffilm ▶ i weld cynnwys. Os byddai'n well gennych, gallwch weithio drwy'r pecyn cymorth o'i ddechrau i'w ddiwedd fel petaech yn darllen llyfr. Eich dewis chi ydyw.

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth gan Dr Alun Hughes o 20 Degrees Consulting Ltd ar ran Anabledd Cymru. Mae'r gwaith yn llunio rhan o'r prosiect Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion a arweinir gan Anabledd Cymru mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru ac a ariennir gan Y Gronfa Loteri Fawr.

Rydym wedi adrodd storïau pobl yn y pecyn cymorth hwn. Er bod y storïau'n wir, weithiau mae enwau'r cyfranogwyr wedi cael eu newid er mwyn parchu eu preifatrwydd.

Roedd yr enghreifftiau a'r dolenni a ddarperir yn y pecyn cymorth hwn yn gywir pan gafodd ei gynhyrchu ym mis Medi 2018.

Citizen Directed Co-operatives Cymru
Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion
Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# 2. Byw'n Annibynnol

**Wrth wraidd yr agenda byw'n annibynnol mae dewis personol a rheolaeth ynglŷn â sut y mae pobl anabl yn byw eu bywydau Efallai y bydd pobl sydd ddim yn anabl yn cymryd yr hawliau hyn yn ganiataol, ond eto yn aml bydd pobl sydd ag amhariadau yn canfod eu hunain yn anabl oherwydd bod cymdeithas yn gosod rhwystrau i'w dewisiadau.**

Mae nifer o'r rhwystrau hyn sy'n analluogi yn deillio o ffordd o feddwl y gellir ei disgrifio fel Model Meddygol Anabledd. Mae'r model hwn yn awgrymu bod methiant neu gyfyngiadau corff person yn ei roi ef neu hi dan anfantais. Mae'n edrych ar amhariad fel rhywbeth sydd angen ei wella a gwneud y person anabl yn iach a 'normal'. Rhoddir y pwyslais ar allu person i fod yr un fath â phawb arall neu ar yr ymdrech sydd ei hangen i'w gael mor 'normal' â phosibl.

Mewn cyferbyniad, mae sefydliadau megis Anabledd Cymru yn dadlau o blaid edrych ar y byd mewn ffordd wahanol - a ddisgrifir gan y Model Cymdeithasol o Anabledd. Dull seiliedig ar 'hawliau' ydyw. Mae'r model hwn yn awgrymu bod rhwystrau sefydliadol, amgylcheddol ac o ran agwedd a osodir ac a orfodir gan gymdeithas yn achosi anabledd. Mae cyflwr meddygol unigolyn yn amherthnasol. Edrychir ar anabledd fel rhywbeth a osodir ar bobl sydd ag amhariadau.

Bathwyd y term 'Model Cymdeithasol o Anabledd' gyntaf gan Mike Oliver ym 1983[1] ond datblygwyd y model gan bobl anabl ar sail eu profiadau eu hunain, bod y rhan fwyaf o'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu wedi'u hachosi gan y modd yr oedd cymdeithas wedi'i threfnu. Yn raddol, mae'r gymdeithas ehangach y tu hwnt i sefydliadau pobl anabl yn cydnabod ac yn mabwysiadu'r model. Er enghraifft, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model yn 2002. Yn 2011 ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgyrch Anabledd Cymru ar gyfer 'Byw'n annibynnol NAWR!' Arweiniodd hyn at Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd fel man cychwyn. Mae'r agenda Byw'n Annibynnol yn chwilio am atebion ymarferol ar gyfer dileu'r rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol y mae pobl anabl yn eu profi, yn cynnwys ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth, trafnidiaeth a mynediad at yr amgylchedd.

[1] Oliver, M. (1983) 'Social Work with Disabled People', MacMillan, Basingstoke, DU

# 3. Taliadau Uniongyrchol

## 3.1 Cyflwyniad i daliadau uniongyrchol

Mae Carers UK yn rhoi cyflwyniad da i daliadau uniongyrchol

> “Os asesir chi, neu’r person rydych yn gofalu amdano/amdani, gan y cyngor lleol/ymddiriedolaeth fel rhywun sydd angen cefnogaeth, yna mae gennych chi neu hwy hawl i ofyn am daliad uniongyrchol yn hytrach na chael cefnogaeth wedi’i threfnu gan y cyngor lleol/ ymddiriedolaeth”.
>
> **(Carers UK, 2014)**

Gall derbynwyr taliadau uniongyrchol ddefnyddio’r arian i brynu’r gwasanaethau y cytunwyd sydd eu hangen arnynt yn hytrach na derbyn y gwasanaethau gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Bwriad y taliadau uniongyrchol gan lywodraeth yw gwella dewis, rheolaeth ac annibyniaeth ar gyfer pobl.

Rheolir taliadau uniongyrchol yng Nghymru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015. Fe’u darperir gan yr awdurdod lleol y mae’r person anabl yn preswylio ynddo. Mae pob awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am daliadau uniongyrchol ar gyfer pobl sy’n byw yn eu hardal. Bydd rhai awdurdodau’n



darparu’r wybodaeth sylfaenol ynglŷn â chymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol a phwynt cyswllt, tra bod eraill yn mynd yn llawer pellach. Gellir dod o hyd i restr o ddolenni i’r wybodaeth hon yn Atodiad A.

Er mai cymharol ddiweddar yw’r fframwaith deddfwriaeth uchod, mae taliadau uniongyrchol wedi bod ar gael am yn llawer hwy, fel y dywed Vin West sy’n Rhiant Ofalwr ▶ .

## 3.2 Cymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol

Gellir cynnig taliadau uniongyrchol i bron bawb sydd wedi’i asesu gan y gwasanaethau cymdeithasol fel rhywun cymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mewn ychydig iawn o achosion efallai na fydd taliad uniongyrchol yn bosibl, er enghraifft pan atalir hynny gan orchmynion llys yn ymwneud â dibyniaeth ar gyffuriau/alcohol.

Fel arfer, gall pobl gael taliad uniongyrchol o’r adeg y maent yn 16 oed. Nid oes uchafswm oedran. Gall Rhiant Ofalwr ▶ dderbyn taliad uniongyrchol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer plentyn dan 18 oed.



## 3.3 Defnydd taliadau uniongyrchol ar waith

Mae llawer o enghreifftiau da ar wefannau awdurdodau lleol sy'n dangos sut mae taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio yn ymarferol.

### 3.3.1 Cyflogi cynorthwywyr personol (CP)

Defnyddir taliadau uniongyrchol yn fwyaf cyffredin i gyflogi cynorthwywyr personol. Rhoddodd ffilmiau byr o storïau Wiliam ▶ a Dylan's stories ▶ o Gyngor Ynys Môn gyfleoedd i Wiliam, Dylan, eu rhieni a'u CPau ddweud beth mae taliadau uniongyrchol wedi'i olygu iddynt hwy. Gallwch wrando ar, neu ddarllen am, y dewisiadau y gallant nawr eu gwneud a'r annibyniaeth y mae hynny'n ei roi iddynt. Maent yn awgrymu bod yr hyder sydd wedi dod gyda'r manteision hyn wedi gweddnewid eu bywydau.

Er bod cyflogi cynorthwywyr personol ▶ yn ddefnydd cyffredin o daliadau uniongyrchol, gellir defnyddio'r taliadau mewn nifer o ffyrdd eraill.

### 3.3.2 Prynu offer

Mae Cyngor Abertawe yn rhoi cyflwyniad da i wahanol ffyrdd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Er enghraifft, mae'n dangos y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i wneud pryniannau unwaith yn unig ar gyfer offer er mwyn diwallu anghenion a nodwyd:

Wedi rhai blynyddoedd roedd Gary yn gwneud cynnydd da mewn goresgyn problemau iechyd meddwl hirsefydledig, a chynorthwyodd ei reolwr gofal iddo ddod o hyd i rôl wirfoddol a fyddai'n helpu ei ragolygon ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, gwnaeth ei OCD hi'n anodd iawn iddo ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd yno. Galluogodd taliad uniongyrchol unwaith yn unig i Gary brynu beic ail law a sicrhaodd nid yn unig y gallai gyrraedd ei leoliad gwirfoddol ar amser, ond cynyddodd ei hunanhyder gan iddo ddod yn fwy symudol. **(Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Cyngor Abertawe).**

### 3.3.3 Cyfuno adnoddau

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dangos sut y gall taliadau uniongyrchol gan un person gael ei gyfuno â neu ei ychwanegu at daliadau uniongyrchol gan bobl eraill sydd â'r un anghenion wedi'u hasesu. Mae hyn yn galluogi pobl i fod yn greadigol o ran y datrysiadau y gallant eu datblygu ar eu cyfer eu hunain. Ymhlith yr enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn ei Ganllaw Cyfuno Taliadau Uniongyrchol y mae grŵp chwaraeon a chymdeithasol a gynhelir gan ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, grŵp drama a chaffi cymunedol. Gwnaed y cyfan o'r rhain yn bosibl oherwydd bod pobl wedi cydweithredu a defnyddio eu taliadau uniongyrchol i gyflawni un canlyniad cyffredin.

### Grŵp Chwaraeon

Sefydlwyd grŵp chwaraeon a chymdeithasol a gynhelir gan ddefnyddwyr gan grŵp o bobl oedd â chyflyrau iechyd meddwl. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar gyfeillio a chymdeithasu, yn ogystal ag ystod o weithgareddau chwaraeon. Maent yn darparu cefnogaeth gymdeithasol i'w gilydd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.

Sefydlwyd y grŵp pan roddwyd y cyfle i bobl gyfuno eu taliadau uniongyrchol. Yn ogystal â chael asesiadau unigol i ganfod eu hanghenion unigol, cynhaliodd yr awdurdod lleol asesiadau grŵp.

Er mwyn sefydlu'r grŵp, gwnaethant ofyn am gefnogaeth y prif swyddog taliadau uniongyrchol yn yr awdurdod lleol. Unwaith eu bod yn barod i ddechrau, talodd yr awdurdod lleol yr arian y cytunwyd arno i gyfrif cymunedol a reolwyd ar eu rhan. Talodd hyn am y costau sefydlu.

**(Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Cyngor Sir y Fflint o'i Ganllaw Cyfuno Taliadau Uniongyrchol)**

## 3.4 Beth sy'n bwysig i chi?

Mae'r syniad hwn o daliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio i roi canlyniad i unigolyn, yn hytrach na bod wedi'i ganolbwyntio ar brynu set o wasanaethau cyfyngedig eu diffiniad, yn ganolog i syniadaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ymarferol golyga hyn y dylai asesiadau gwasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael ei asesu ar gyfer cefnogaeth.

Dyma enghraifft sy'n dangos beth a olygwn gan ganlyniadau a gwasanaethau:

Efallai y bydd dau berson yn chwilio am gwmnïaeth er mwyn goresgyn teimladau i arwahanrwydd ac unigedd. Ar gyfer un person gallai hyn olygu ei fod angen cludiant i gyrraedd grŵp cefnogi er mwyn cwrdd â phobl sydd â phrofiadau bywyd tebyg. I berson arall, efallai y bydd cwmnïaeth yn golygu ei gi, ond bod angen gwasanaeth cerddwr cŵn. Mae'r cludiant a'r cerddwr cŵn yn wasanaethau ond yn y ddwy enghraifft cwmnïaeth yw'r canlyniad.

Mae enghraifft o swydd Essex yn dangos grym taliadau uniongyrchol i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer pobl anabl ac mae wedi'i atgynhyrchu o gyhoeddiad gan Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth[2]:

Mae gan ŵr 56 oed sydd â chyflwr dementia cynnar amser canolbwyntio byr iawn sy'n galw am ysgogiad bron yn gyson, ac mae'n cael hyn gan ei wraig, ei brif ofalwr. Mae'r sefyllfa yn debygol o dorri lawr os na fydd y wraig yn cael seibiannau rheolaidd ac os nad yw'r gŵr yn cael ei ysgogi'n rheolaidd. Mae hefyd angen cefnogaeth arno er mwyn cynnal cysylltiadau a chyswllt rheolaidd gyda'i deulu, ond mae'n cael anhawster i gofio sut i ddefnyddio'r trên er mwyn eu cyrraedd.

Yn draddodiadol byddai wedi cael tair awr o ofal cartref bob wythnos, a dau ddiwrnod yr wythnos mewn canolfan ddydd. Amcangyfrifir mai cost y gwasanaeth hwn fyddai £600 y mis. Ar hyn o bryd mae'n derbyn taliadau uniongyrchol gwerth £200 y mis, ac mae ei wraig yn derbyn taliad uniongyrchol gofalwr gwerth £55 y mis. Dyma sut y maent yn diwallu eu hanghenion a aseswyd: Mae ganddo nawr danysgrifiad teledu lloeren Sky sy'n costio £40 y mis. Gall wylio chwaraeon a phêl-droed, sy'n cynnal ei amser canolbwyntio ac mae'n mwynhau hyn yn fawr. Mae'r cyfleuster hwn ar gael saith diwrnod yr wythnos. Mae ganddo nawr aelodaeth mewn clwb chwaraeon a bydd yn mynd i'r gampfa gyda chynorthwyydd personol bob wythnos. Bydd hefyd yn mynd i nofio pan fydd cyfle. Cost y cynorthwyydd personol yw £100 y mis a chost aelodaeth y clwb chwaraeon yw £28 y mis. Bydd ei wraig yn derbyn taliad uniongyrchol gofalwr i ariannu ei haelodaeth hi gan eu bod yn mwynhau nofio gyda'i gilydd. Mae'n defnyddio £150 y flwyddyn i ariannu trafnidiaeth a geir drwy'r gwasanaethau cludiant gwirfoddol cymunedol, i deithio gyda'i wraig i Center Parcs er mwyn treulio gwyliau gyda'i deulu. Mae hefyd yn talu'r gwasanaeth cludiant gwirfoddol cymunedol fel y gall ef â'i wraig deithio i aros gyda'u teulu yn Llundain pan fo hynny'n bosibl. Mae'n defnyddio rhan o'r arian i dalu am dacsi bob mis i fynychu, ynghyd â'i wraig, glwb ar gyfer pobl sydd â dementia cynnar a'u gofalwyr. Bydd ei wraig yn talu hanner cost y tacsi o'r taliad uniongyrchol gofalwr y mae'n ei dderbyn.

**Enghraifft wedi'i darparu gan reolwr datblygu Taliadau Uniongyrchol Swydd Essex (Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth)**

[2] Lewis, S (2005) 'Direct payments: answering frequently asked questions', Adult Services SCIE Guide 10, Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, The Policy Press, Bryste, DU, tud 4-5 y gellir ei gyrchu yn https://www.scie.org.uk/publications/guides/guide10/files/guide10.pdf



Er gwaethaf y potensial ar gyfer annibyniaeth a gynigir gan daliadau uniongyrchol, nid oes cymaint wedi manteisio arnynt ag yr oedd cefnogwyr y system wedi'i obeithio. Yn ymarferol, dywed pobl eu bod wedi cael eu hannog i beidio â chymryd yr opsiwn hwn oherwydd nad ydynt yn dymuno dod yn gyflogwr, bod ganddynt ddiffyg hyder i reoli contractau neu'n syml nad oeddent am ymgysylltu â'r lefelau o atebolrwydd oedd ei angen i reoli arian cyhoeddus.

## 3.5 Modelau presennol i gefnogi rheolaeth taliadau uniongyrchol

Mae'r materion sy'n atal pobl rhag ymgysylltu â thaliadau uniongyrchol yn hysbys iawn:

- dim am ddod yn gyflogwr cynorthwywyr personol (CP)
- dim y profiad neu'r hyder i reoli contractau
- dim eisiau rheoli'r biwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â bod yn atebol am arian cyhoeddus.

Mae llawer wedi'i wneud i leihau'r baich o reoli taliadau uniongyrchol. Datblygwyd gwahanol fodelau cefnogi er mwyn cynorthwyo pobl i oresgyn rhwystrau i weithio gyda thaliadau uniongyrchol. Defnyddir y mwyafrif llethol o daliadau uniongyrchol i gyflogi CP. Erbyn hyn mae'n gyffredin i bobl anabl ddefnyddio sefydliad annibynnol i reoli'r taliadau uniongyrchol a chyflogi staff ar eu rhan. Gall y sefydliadau hyn fod yn gwmnïau er elw ond yn fwyaf cyffredin yng Nghymru maent yn gwmnïau dim er elw, sydd wedi cofrestru fel elusennau ac yn gweithredu fel mentrau cymdeithasol.

Roedd enghreifftiau o ddarparwyr gwasanaeth taliadau uniongyrchol a oedd yn gweithredu yng Nghymru pan ysgrifennwyd y pecyn cymorth hwn yn cynnwys:

- Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol
- Diverse Cymru
- Ymddiriedolaeth Penderels
- People Plus
- Gwasanaethau Cefnogi Byw'n Annibynnol (SIL)
- Sefydliad Rowan



Cynrychioliadol yw'r rhestr hon ac nid yw'n gyflawn. Ar adeg ysgrifennu'r pecyn, roedd gan bob un gontract cefnogi taliadau uniongyrchol gydag un neu ragor o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r contractau cefnogi hyn wedi eu rhoi ar waith oherwydd bod awdurdodau lleol yn cydnabod y rhwystrau i fanteisio ar daliadau uniongyrchol a'u bod am gynorthwyo i leihau'r rhwystrau hyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaeth hwn drwy dimau mewnol ac nid ydynt wedi comisiynu darparwyr allanol. Mae rhai awdurdodau lleol, megis Castell-nedd Port Talbot wedi symud i fframwaith o ddarparwyr er mwyn ymestyn dewis i'w derbynwyr taliadau uniongyrchol.

Er bod darparwyr gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn cefnogi recriwtiaid CPau, yn gofalu am y gyflogres, yn sicrhau y cedwir at y ddeddf cyflogaeth ac yn cyfrifo am wariant taliadau uniongyrchol, y person anabl sy'n dewis y CP ac yn rheoli tasgau o ddydd i ddydd y CP. Diben darparwyr gwasanaeth taliadau uniongyrchol yw cefnogi'r person anabl a symud y rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar daliadau uniongyrchol - maent yn bodoli i hyrwyddo annibyniaeth a rheolaeth pobl anabl.

# 4. Cydweithredu i Rheoli Taliadau Uniongyrchol

**Yn gynharach gwnaethom edrych ar rai enghreifftiau o bobl anabl wedi'u hasesu gydag anghenion tebyg yn cyfuno adnoddau er mwyn gwneud i'w taliadau uniongyrchol fynd ymhellach neu i ddiwallu eu hanghenion yn well. Enghreifftiau o gydweithredu oedd y rhain. Fodd bynnag, mae'n bosibl mynd â chydweithredu ymhellach a sefydlu menter gydweithredol.**

Mae'r Gynghrair Gydweithredol Rhyngwladol yn diffinio menter gydweithredol fel

"cymdeithas ymreolaethol o bobl a unir yn wirfoddol i ddiwallu eu hanghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin a'u dyheadau drwy fenter sydd wedi'i chyd-berchnogi a'i rheoli'n ddemocrataidd".

Yn ymarferol, golyga hyn mai busnes yw menter gydweithredol a sefydlir i gyflawni diben cymdeithasol penodol, felly mae'n enghraifft o fath o fusnes y cyfeirir ato'n aml fel menter gymdeithasol. Mae llawer o fentrau cydweithredol yn sefydliadau dim er elw, tra bod eraill yn caniatáu i lefelau cymedrol o elw gael ei ddosbarthu ymhlith aelodau. Fodd bynnag, prif ysgogwr menter gydweithredol yw creu gwerth ar gyfer ei haelodau yn hytrach nac elw.

Un o nodweddion penodol menter gydweithredol yw ei bod yn eiddo i'w haelodau ac yn cael ei rhedeg ganddynt. Gall aelodau fod yn ddefnyddwyr gwasanaethau'r fenter gydweithredol, yn gyflogeion



neu'n dod o gymuned benodol. Penderfyniad sylfaenwyr pob menter gymdeithasol pan y'i sefydlir yw a yw'r aelodau yn dod o gymysgedd o'r grwpiau hyn neu dim ond un ohonynt. Waeth pwy sy'n dod yn aelodau, mae gan bob aelod bleidlais sy'n gyfwerth â phleidlais pob aelod arall. Maent yn defnyddio eu pleidlais i lywio cyfeiriad y fenter gydweithredol.

Gweithiodd Anabledd Cymru gyda'r Fforwm Cydweithredol Cymdeithasol i greu cyfres o bum canllaw byr am fentrau cydweithredol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r ail ganllaw, Beth yw mentau cydweithredol?, yn rhoi cyflwyniad clir i hanes y mudiad cydweithredol, gwerthoedd ac egwyddorion mentrau cydweithredol a beth sy'n gwneud mentrau cydweithredol yn wahanol i fathau eraill o sefydliadau.

# 5. Mentrau Cydweithredol Dan Arweiniad Ddefnyddwyr i Reoli Taliadau Uniongyrchol



## 5.1 Yr hanes

Datblygodd y syniad o fentrau cydweithredol dan arweiniad dinasyddion neu ddefnyddwyr i reoli taliadau uniongyrchol a chyflogi CPau yng Nghymru o sgwrs wreiddiol rhwng Prif Weithredwr Anabledd Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Aeth â'r syniad o daliadau uniongyrchol yn ehangu dewis a rheolaeth i'r terfyn rhesymegol o bobl anabl nid dim ond yn dewis y gwasanaethau ond hefyd sut y byddai'r darparwr gwasanaeth yn cael ei redeg.

Gweithiodd Anabledd Cymru ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru i gynorthwyo i wireddu'r syniad hwn. Awgrymodd ymchwil cychwynnol a gynhaliwyd yn 2013 nad oedd cynsail yn y DU ar gyfer menter gymdeithasol gofal dan arweiniad defnyddwyr pan fo'r defnyddwyr hyn yn bobl anabl. Yr unig enghreifftiau o'r model hwn a nodwyd ar y pryd oedd STIL (Stockholm Co-operative for Independent Living) yn Sweden ac ULOBA (User-owned and Controlled Personal Assistance Co operative) yn Norwy.

Ariannwyd prosiect Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion (CDCC) gan Y Gronfa Loteri Fawr o dan ei rhaglen Awydd i Arloesi. Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn gan y prosiect. Y prif ganlyniadau a geisiwyd gan brosiect CDCC oedd hyrwyddo taliadau uniongyrchol fel opsiwn ar gyfer pobl anabl ac i sefydlu menter gydweithredol gofal dan arweiniad defnyddwyr. Sefydlwyd un fenter gydweithredol dan arweiniad defnyddwyr o'r fath gan y prosiect: Menter Gydweithredol MonCare yn Sir Fynwy.

## 5.2 Penderfynu beth sy'n gweithio i chi

Efallai bod menter gydweithredol gofal dan arweiniad defnyddwyr yn swnio'n apelgar. Yn wir, efallai ei bod yn rhywbeth y byddwch yn penderfynu ei sefydlu. Fodd bynnag, mae'r dysgu o brosiect CDCC yn awgrymu y dylech oedi yn gyntaf ac ystyried rhai pethau allweddol.

### 5.2.1 Pwy fydd yn ymuno â chi a beth ydych chi eisiau ei wneud?

Er mwyn sefydlu menter gydweithredol fe fydd angen grŵp o bobl o'r un meddylfryd ▶ arnoch gyda set o nodau ac amcanion cyffredin. Yn aml bydd grŵp o sylfaenwyr ar gyfer menter gydweithredol yn dod i adnabod ei gilydd drwy brofiadau a rennir, am eu bod yn mynychu'r un clwb neu grŵp cefnogi neu efallai eu bod yn ffrindiau neu'n gymdogion ac yn rhannu'r un pryderon. Pa bynnag mor dda rydych yn teimlo eich bod yn adnabod y bobl eraill, mae hi'n dal yn synhwyrol i dreulio ychydig o amser yn galluogi pob person i siarad am ei fywyd, yn arbennig ei obeithion a'i freuddwydion. Datblygodd prosiect Galluogi Cymru, a arweiniwyd gan Anabledd Cymru, becyn cymorth a allai fod yn ddefnyddiol i chi ar y cam hwn. Mae Pennod 2 yn edrych ar *Weithio mewn Grŵp*. Mae'n rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gynnal cyfarfod fel bod pawb yn cael cyfle i rannu ei farn a bod pawb arall yn gwrando'n effeithiol.

Pan fydd pawb wedi dod i adnabod a deall ei gilydd, mae'n bryd canolbwyntio ar y busnes arfaethedig. Cyn trefnu strwythur cyfreithiol y busnes neu ddechrau ar y broses cynllunio busnes ffurfiol, mae cwestiynau mwy sylfaenol i'w hateb. Maent yn sail i'r holl waith yn y dyfodol. Canolbwyntiwch at beth hoffech ei gyflawni gyda'r busnes.



Gofynnwch y cwestiynau sylfaenol canlynol i'ch hun:

- Beth hoffech chi ei gyflawni?
- Pa mor fawr yw'r angen? A oes angen gwasanaeth neu a ydych am fynd i'r afael â'ch anghenion eich hun a grŵp bychan o bobl eraill?
- Faint fydd hyn gostio ac o le daw'r arian?
- Pwy arall allai fod yn gysylltiedig?
- Pa adnoddau sydd eu hangen arnoch? A oes gennych y sgiliau i ddiwallu'r angen? Efallai y bydd angen i chi chwilio am bobl eraill sydd â'r sgiliau cywir i ymuno â'ch grŵp neu efallai y byddwch yn hytrach yn penderyfnu cyflogi pobl.

Mae digonedd o adnoddau ar gael i'ch helpu gyda'r cam hwn. Unwaith eto, efallai y byddwch yn teimlo bod Pecyn Cymorth Galluogi Cymru yn ddefnyddiol, yn arbennig penodau tri i bump – *Nodi'r Her, Bod yn Greadigol a Meddwl yn Fawr*.

Unwaith eich bod wedi ateb y cwestiynau sylfaenol gallwch brofi eich syniad drwy'r Pecyn Cymorth Cydweithredu i Ofalu a ddatblygwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.





### 5.2.2 A yw'n fusnes?

Unwaith bod gennych ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni, mae'n bryd penderyfnu ar y ffordd orau i ddatblygu eich menter. Dyma'r cwestiynau y bydd angen i chi eu hateb:

- A oes angen i chi sefydlu busnes i gyflawni eich nod? Er bod y pecyn cymorth hwn yn tybio eich bod yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw, weithiau y cyfan sydd ei angen yw cydweithrediad llac rhwng pobl neu sefydlu grŵp cefnogi.
- Os byddwch yn penderfynu mai sefydlu busnes yw'r gorau i chi, a yw'n fath o fusnes lle dosbarthir elw ymhlith perchnogion y busnes neu a gaiff yr elw ei ail-fuddsoddi yn bennaf yn nodau cymdeithasol y busnes? Weithiau gelwir yr ail fath yn fenter gymdeithasol neu'n fusnes cymdeithasol.

Mae llawer o gefnogaeth ar gael i bobl sy'n ceisio sefydlu busnes yng Nghymru. Man cychwyn defnyddiol ar gyfer pobl sydd wedi penderyfnu bod eu busnes yn ymwneud yn bennaf â chyflawni nodau ac amcanion cymdeithasol yn hytrach nac elw yw Busnes Cymdeithasol Cymru.

# 6. Menter Gydweithredol Pobl Anabl



## 6.1 Yn ôl i'r man cychwyn

Rydym yn fwriadol wedi mynd â chi ar daith i archwilio eich opsiynau cyn dychwelyd at y model cydweithredol. Rydych yn fwy tebygol o lwyddo os ydych wedi mynd ar hyd llwybr sy'n diwallu orau anghenion a thueddiadau eich grŵp. Er bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn eirioli ar ran modelau cydweithredol, mae Anabledd Cymru yn eirioli ar ran pobl anabl ac nid yw'n ffafrio'r un strwythur cyfreithiol busnes dros un arall.

Pan luniwyd y pecyn cymorth hwn, roedd Menter Gydweithredol dan arweiniad Pobl Anabl o'r enw MonCare yng nghamau cynnar ei datblygiad. Deilliodd o waith prosiect Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion. Llywiodd y gwersi a ddysgwyd gan y prosiect, ac yn arbennig datblygiad Menter Gydweithredol MonCare, gynnwys y pecyn cymorth hwn. Mae rhai o'r gwersi hynny wedi eu crynhoi mewn ffilm pum munud ▶ yr ydym yn eich annog i'w gwylio fel rhan o'r pecyn cymorth hwn.

Gallai profiadau aelodau MonCare a'r cydlynydd a gyflogwyd i'w cefnogi eich helpu neu eich ysbrydoli ar eich taith tuag at eich menter gydweithredol eich hun. Mae cyfres o ffilmiau byr yn cofnodi peth o'u barn. Maent yn siarad am yr hyn wnaeth eu hysgogi i fod yn rhan ▶ ym Menter Gydweithredol MonCare a hefyd manteision ymuno ▶ â datblygiad megis MonCare. Mae rhestr hwy o ffilmiau ar gael yn y rhestr chwarae o ffilmiau a gynhyrchwyd gan brosiect Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion.



## 6.2 Dechrau menter gydweithredol pobl anabl

Os ydych wedi gweithio eich ffordd drwy'r pecyn cymorth hwn ac yn teimlo yr hoffech ddechrau menter gydweithredol pobl anabl, gall Canolfan Cydweithredol Cymru eich helpu. Fel man cychwyn, mae wedi datblygu pecyn cymorth rhyngweithiol ar-lein. Bydd hyn yn eich galluogi chi i ddysgu mwy am fentrau cydweithredol, pam eu bod yn wahanol i strwythurau busnes cyfreithiol eraill a'ch cynorthwyo i ddechrau creu cynllun ar gyfer eich menter gydweithredol. Yn ogystal, mae gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gynghorwyr a fyddai'n fwy na pharod i'ch cynorthwyo ar eich taith tuag at ddatblygu eich menter gydweithredol eich hun.


Citizen Directed Co-operatives Cymru
Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion

Disability Wales
Anabledd Cymru

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Rhestr geiriau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn

| | |
|---|---|
| **CDCC** | Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion |
| **Menter gydweithredol** | Menter gydweithredol yw cymdeithas ymreolaethol o bobl a unir yn wirfoddol i ddiwallu eu hanghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin a'u dyheadau drwy fenter sydd wedi'i chyd-berchnogi a'i rheoli'n ddemocrataidd. |
| **Taliadau uniongyrchol** | Bwriedir i'r rhain rymuso pobl anabl i fyw bywydau annibynnol, gan gynnig mwy o ddewis a rheolaeth i bobl ynglŷn â sut y diwallir eu hanghenion gofal, ac maent yn ddewis amgen i gael cefnogaeth wedi'i threfnu'n uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol. Yn y bôn, darperir arian i bobl i brynu'r gwasanaethau y cytunwyd sydd eu hangen arnynt. |
| **Amhariad** | Anaf, salwch, neu gyflwr cynhenid sy'n achosi neu'n debygol o achosi effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngu gweithrediad yn yr unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin. |
| **MonCare** | Menter gydweithredol gofal dan arweiniad dinasyddion a sefydlwyd yn Sir Fynwy o dan nawdd prosiect Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion. |
| **CP** | Cynorthwyydd Personol. |

# Atodiad A –

## Ffynonellau gwybodaeth Awdurdodau Lleol ynglŷn â Thaliadau Uniongyrchol

Roedd yr holl ddolenni hyn yn gywir ar adeg eu cyhoeddi – Medi 2018 – ond caiff gwybodaeth ei diweddaru a'i symud o bryd i'w gilydd. Os nad yw dolen yn gweithio, rydym yn awgrymu eich bod yn dod o hyd i wefan eich awdurdod lleol gan ddefnyddio eich peiriant chwilio a theipio *taliadau uniongyrchol* yn y blwch chwilio a geir ar y wefan.

| Awdurdod Lleol | Lleoliad y wybodaeth |
|---|---|
| Ynys Môn | http://www.ynysmon.gov.uk/iechyd-a-gofal/gwasanaethau-oedolion/gofal-yn-y-cartref/taliadau-uniongyrchol?redirect=false |
| Blaenau Gwent | http://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/cael-yr-help-rydych-ei-angen/taliadau-uniongyrchol/ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/taliadau-uniongyrchol/ |
| Caerffili | https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Managing-your-money/Direct-payments?lang=cy-gb |
| Caerdydd | https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Lles/Oedolion/Gwasanaethau-gofal/Cynllun-taliadau-uniongyrchol/Pages/default.aspx |
| Sir Gaerfyrddin | https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/taliadau-uniongyrchol/#.W9LmtfZFzIU |
| Ceredigion | http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/lles-a-gofal/sut-gall-y-gwasanaethau-cymdeithasol-helpu/taliadau-uniongyrchol/ |
| Conwy | http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Adults/Paying-for-care/Direct-Payments-Social-Services-—-Arranging-your-own-support-and-services.aspx |

# Atodiad A

| Awdurdod Lleol | Lleoliad y wybodaeth |
|---|---|
| Sir Ddinbych | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/cyllidebau-cymorth-a-adwaenid.aspx |
| Sir y Fflint | http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Direct-Payments-Welsh.aspx |
| Gwynedd | https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion-a-phobl-hŷn/Cyngor-ariannol-a-chyfreithiol/Taliadau-Uniongyrchol.aspx |
| Merthyr Tudful | https://www.merthyr.gov.uk/resident/social-services-and-well-being/adult-social-care/direct-payments/?lang=cy-GB& |
| Sir Fynwy | https://monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2014/08/direct-payments-leaflet.pdf |
| Castell-nedd Port Talbot | https://www.npt.gov.uk/7305?lang=cy-gb |
| Casnewydd | http://www.newport.gov.uk/cy/Care-Support/How-social-services-can-help/Direct-payments.aspx |
| Sir Benfro | https://www.sir-benfro.gov.uk/cymorth-gan-yr-adran-gwasanaethau-oedolion/taliadau-uniongyrchol |
| Powys | https://cwsmer.powys.gov.uk/article/1580/Gwneud-cais-am-daliadau-uniongyrchol |
| Rhondda Cynon Taf | https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/AdultsandOlderPeople/MoneyandFinance/Directpaymentsforcare.aspx |
| Abertawe | https://www.abertawe.gov.uk/taliaduniongyrchol |
| Torfaen | https://www.torfaen.gov.uk/cy/HealthSocialCare/Getting-the-help-you-need/Direct-Payments/Direct-Payments.aspx |

# Taliadau Uniongyrchol a Model Menter Gydweithredol Pobl Anabl

## Pecyn Cymorth

Citizen Directed Co-operatives Cymru
Mentrau Cydweithredol dan Arweiniad Dinasyddion

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Disability Wales
Anabledd Cymru

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED